



POLISI DARPARU GWASANAETHAU SAFONAU IAITH GYMRAEG PRIFYSGOL CAERDYDD

Cyhoeddwyd yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017.

1. DIBEN

- 1.1 Diben Polisi Cyflenwi Gwasanaethau Safonau'r Gymraeg yw egluro'r gofynion o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017. Yn benodol, mae'n ymwneud â Safonau 1 i 93 y Gymraeg ac mae'n nodi'r strwythurau a'r prosesau sydd ar waith i hwyluso cydymffurfiaeth.
- 1.2 Mae geiriad unigol safonau 1 i 93 i'w gweld yn [Hysbysiad Cydymffurfio Adran 44 Prifysgol Caerdydd](#).

2. CWMPAS

- 2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau i staff Prifysgol Caerdydd, i fyfyrwyr, i ddarpar fyfyrwyr ac i aelodau'r cyhoedd fel y nodir gan [Atodlen 1 Rhan 3 Paragraff 31 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 6\) 2017](#).
- 2.2 Nid yw'r gofyniad i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn un absoliwt ac mae dim ond yn ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir mewn perthynas â:
 - I. derbyn a dethol myfyrwyr;
 - II. gwybodaeth a ddarperir i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr am gorff y Brifysgol;
 - III. lles y myfyrwyr;
 - IV. cwynion;
 - V. achosion disgyblu mewn cysylltiad â myfyriwr;
 - VI. gwasanaethau gyrfaoedd;
 - VII. mewnrwyd i fyfyrwyr, gwefannau rhith-ddysgu a gwefannau porth dysgu;
 - VIII. seremonïau graddio a gwobrwyo;
 - IX. asesu neu arholi myfyrwyr;
 - X. dyfarnu grantiau a rhoi cymorth ariannol;
 - XI. darlithoedd cyhoeddus;
 - XII. cyfleoedd dysgu;
 - XIII. dyrannu tiwtor personol;
 - XIV. llety myfyrwyr, llyfrgelloedd a chanolfannau celfyddydau;
 - XV. galwadau i linell gymorth, canolfan alwadau neu brif rifau ffôn a systemau ffôn awtomatig;

XVI. arwyddion ar adeiladau'r Brifysgol

- 2.3 Mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, neu at beidio â thrin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg, yn cynnwys, ymhlith materion eraill, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—
- (a) cyflwyniad gweledol deunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun);
 - (b) maint y deunydd;
 - (c) safle ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw le cyhoeddus;
 - (ch) pryd a sut mae'r deunydd yn cael ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;
 - (d) fformat cyhoeddi'r deunydd.
- 2.4 Gall 'materion eraill' gynnwys beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran:
- trefn iaith y deunydd
 - safon ac ansawdd y deunydd
 - eglurder a chywirdeb y deunydd (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun), a
 - chynnwys y deunydd (er enghraifft o ran manylion neu ansawdd y wybodaeth y mae'n ei chynnwys).

3. DATGANIAD POLISI

- 3.1 Mae sicrhau bod yr iaith yn cael ei hintegreiddio i'n ffyrdd o weithio, a chydabod hawliau unigolion i gael rhwydd hynt i ddefnyddio'r Gymraeg, yn elfennau hanfodol o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym Mhrifysgol Caerdydd.
- 3.2 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhan o fframwaith ehangach o ddeddfwriaeth yng Nghymru mewn cysylltiad â chydaddoldeb. Mae'r fframwaith hwn yn gosod rhwymedigaethau statudol ar y Brifysgol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn ein penderfyniadau, ac yn y modd yr ydym yn rhyngweithio â myfyrwyr, â darpar fyfyrwyr, â'r staff ac â'r cyhoedd.
- 3.3 Datblygwyd y polisi hwn i gynorthwyo Ysgolion, Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol i gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 ac i ymgorffori'r Gymraeg fel agwedd integredig ar ddarparu ein gwasanaeth.

4. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

- 4.1 Y Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol yw noddwyr Bwrdd Gweithredol y Brifysgol ar gyfer y polisi hwn.
- 4.2 Yr Uwch-ymgyngorydd Cydymffurfiaeth a Swyddog y Gymraeg, Tîm Cydymffurfiaeth a Risg (Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol), yw perchennog y polisi.

- 4.3 Bydd pob Pennaeth Ysgol, Cyfarwyddwr, Sefydliad Ymchwil, Pennaeth Gwasanaeth Proffesiynol, Rheolwyr Ysgol a Chyfarwyddwr Ymchwil yn gyfrifol am sicrhau bod eu meysydd perthnasol yn cydymffurfio â gofynion y polisi hwn.
- 4.4 Gall pob Pennaeth Ysgol, Cyfarwyddwr, Sefydliad Ymchwil, Pennaeth Gwasanaeth Proffesiynol a Chyfarwyddwr Ymchwil enwebu eu Hyrwyddwr y Gymraeg i fod yn ddolen gyswllt â'r tîm Cydymffurfiaeth a Risg ar gyfer unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ynghylch y polisi hwn a sut y caiff ei roi ar waith.
- 4.5 Bydd y Brifysgol, gan gynnwys Deon y Gymraeg a Rheolwr yr Academi Cymraeg, yn cymryd camau sy'n briodol (gan gynnwys hyfforddiant) i sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o ofynion a goblygiadau'r polisi hwn ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ledaenu gwybodaeth i staff sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau a rheoli prosesau yn eu meysydd priodol.

5. POLISIÂU A CHANLLAWIAU CYSYLLTIEDIG

- 5.1 Mae'r polisi hwn yn rhan o fframwaith ehangach o gyngor ynghylch y Gymraeg sy'n cynorthwyo cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017.
- 5.2 Mae'n gysylltiedig â pholisïau eraill y Brifysgol, yn benodol –
 - Polisi Safonau Gweithredol y Gymraeg
 - Dyfarnu Grantiau a Chymorth Ariannol – Polisi a Gweithdrefn Ystyriaethau o ran y Gymraeg
 - Polisi a Gweithdrefn Asesu'r Effaith ar y Gymraeg
 - Rheoliadau Academaidd 2023/2024
 - Polisi defnydd Mewnol o'r Gymraeg
 - Polisi Recriwtio o ran y Gymraeg
 - Yr Alwad/Embrace It - Strategaeth Prifysgol Caerdydd ar gyfer y Gymraeg
- 5.3 Mae canllawiau cyffredinol ychwanegol hefyd ar gael ar fewnwyd y Brifysgol yn ymwneud â:
 - Canllawiau ar gyfer yr holl staff
 - Staff sy'n cyfathrebu â myfyrwyr a'r cyhoedd
 - Arwyddion a Hysbysiadau
 - Gwasanaethau Ffôn Dwyieithog
 - Gofynion cynnwys Cymraeg
 - Cael gohebiaeth yn Gymraeg.
 - Anfon e-byst dwyieithog neu Gymraeg
 - Cyfryngau cymdeithasol
 - Cyfarfodydd Staff
 - Digwyddiadau, Darlithoedd Cyhoeddus a Chyfleoedd Dysgu
 - Fideos a Phodlediadau
 - Tiwtoriaid Personol a Thiwtorïaid Academaidd
 - Gwasanaethau Derbynfya
 - Cyfrifoldebau Rheolwr llinell
 - llinynnau gwddf a bathodynau Cymraeg eu hiaith

- Caffael gwasanaethau, gan gynnwys apiau
- Preswylfeydd
- Asesiadau ac Arholiadau
- Cwynion
- Llofnodion e-bost ac Atebion Awtomataidd
- Meddalwedd yn Gymraeg
- Proses ar gyfer Asesiad Cyfrwng Cymraeg

SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU

6. GOHEBIAETH

- 6.1 Pan fydd unrhyw fyfyrwr, darpar fyfyrwr neu aelod o'r cyhoedd yn ysgrifennu at y Brifysgol yn Gymraeg drwy unrhyw gyfrwng (e-bost, neges destun, gohebiaeth ysgrifenedig, ac ati) mae'n rhaid ateb yn Gymraeg oni bai bod y sawl sy'n anfon yr ohebiaeth wedi nodi nad angen ateb yn Gymraeg, neu os nad oes angen ateb o gwbl.
- 6.2 Pan anfonir yr ymateb gan gleient e-bost fel Outlook, gan gynnwys blychau post a rennir, mae'n rhaid defnyddio fersiwn Gymraeg y cyfeiriad e-bost (@caerdydd.ac.uk). Chwiliwch '*Anfon e-byst ddwyieithog neu Gymraeg*' ar y fewnwyd am ragor o wybodaeth am gyrchu'r fersiwn hon o'r cyfeiriad e-bost.
- 6.3 Pan fo **corff y Brifysgol**¹ yn cychwyn yr ohebiaeth, a anelir at fyfyrwr (myfyrwr), darpar fyfyrwr (darpar fyfyrwr), neu aelod o'r cyhoedd sy'n byw yng Nghymru, a phan fo diben neu gynnwys y cyhoeddiad hwnnw'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau a amlinellir ym mharagraff 2.2. o'r polisi hwn bydd y canlynol yn gymwys:
- 6.4 Os bydd dewis iaith myfyrwr neu ddarpar fyfyrwr yn hysbys ac mae'r ohebiaeth wedi'i phersonoli ac yn unigryw i'r unigolyn o dan sylw, dim ond yn y dewis iaith y gellir anfon gohebiaeth/cyhoeddiadau ac nid oes angen ei hanfon yn ddwyieithog.
- 6.5 Lle nad yw dewis iaith unigolyn yn anhysbys mae'n rhaid i chi anfon yr ohebiaeth yn ddwyieithog.
- 6.6 Ym mhob gohebiaeth a gyhoeddwyd gan y Brifysgol, mae'n rhaid cynnwys y datganiad canlynol:

Mae'r brifysgol yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi	The university welcomes correspondence in Welsh or English. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.
---	--

¹ Mae '**corff y Brifysgol**' yn cyfeirio at y Brifysgol yn ei chyfanrwydd **neu** dimau **neu** adrannau **neu** Golegau **neu** Ysgolion sy'n cynrychioli'r Brifysgol, neu ddarparwyr trydydd parti a gomisiynwyd i ohebu â myfyrwr ar ein rhan ni.

- 6.7 Pan gynhyrchir fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ohebiaeth ar wahân, mae'n rhaid i'r fersiwn Saesneg nodi bod fersiwn Gymraeg ar gael. Er enghraifft:

Mae'r wybodaeth yma ar gael yn Gymraeg.	This information is available in Welsh.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg	This document is available in Welsh.

- 6.8 Pan lofnodir gohebiaeth, mae'n rhaid i'r llofnod ymddangos ar fersiynau Cymraeg a Saesneg.
- 6.9 Pan mae corff y Brifysgol yn anfon yr un ohebiaeth neu gyhoeddusrwydd a deunydd(iau) hysbysebu at nifer o bobl, rhaid anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth neu'r deunydd(iau) ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg; oni bai bod y deunydd at sylw myfyrwyr yr UE neu ryngwladol yn unig.
- 6.10 Nid oes rhaid i'r Brifysgol gyfieithu unrhyw destun a gynhyrchwyd gan rywun arall i'r Gymraeg. Fodd bynnag, gofyn i'r cyrff allanol hyn ddarparu fersiynau dwyieithog neu Gymraeg/Saesneg ar wahân lle bynnag y bo modd fyddai'r arfer gorau oherwydd efallai bod nifer o sefydliadau allanol o'r fath yn gorfod bodloni eu gofynion eu hunain yng nghyd-destun Safonau'r Gymraeg o ran cyhoeddiadau a deunydd hysbysebu.

7. LLOFNODION E-BOST AC ATEBION AUTOMATAIDD

- 7.1 Mae'n rhaid i holl staff y Brifysgol greu llofnodion e-bost ac atebion awtomataidd dwyieithog, Cymraeg a Saesneg, ac atebion awtomataidd i ohebiaeth e-bost, ac mae'n rhaid iddynt gynnwys y datganiad canlynol -

Mae'r brifysgol yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi	The university welcomes correspondence in Welsh or English. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.
---	--

Mae templedi i'w cael ar fewnwyd y staff trwy chwilio '*am Llofnodion e-bost*' a '*Negeseuon allan o'r swyddfa*'.

8. GWASANAETHAU FFÔN

- 8.1 At ddibenion y polisi hwn, mae 'galwadau ffôn' yn cyfeirio at alwadau allanol i'r Brifysgol neu oddi yno, pan fo diben neu gynnwys y cyfathrebu hwnnw'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.2. o'r polisi hwn. Nid yw hyn yn berthnasol i alwadau mewnol rhwng aelodau staff oni bai bod yr alwad honno i drosglwyddo galwad allanol i adran arall.
- 8.2 Mae'n rhaid i staff sy'n gyfrifol am gyfarch galwyr allanol ar unrhyw brif rif (neu rifau) ffôn, rhifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, gyfarch yr

unigolyn yn Gymraeg (a Saesneg) ac ateb yr alwad yn Gymraeg yn ôl y gofyn nes y byddwch yn un o'r ddwy sefyllfa ganlynol:

- mae angen trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu cynnig gwasanaeth ar bwnc penodol; ac
- nid oes aelod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i gynnig gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

Mae hyn hefyd yn berthnasol i alwadau a wneir i rifau ffôn llinell uniongyrchol yn ein hysgolion a'n hadrannau, gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff.

- 8.3 Os ydych yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif(au) ffôn, ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i'r rhif ffôn ar gyfer y gwasanaeth Cymraeg fod yr un fath a'r un ar gyfer y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.
- 8.4 Pan fyddwch yn hysbysebu neu'n cyhoeddi prif rif ffôn, neu unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, mae'n rhaid i chi ddatgan yn Gymraeg ein bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. Er enghraifft:

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg.	You are welcome to communicate with us in Welsh.
--	--

- 8.5 Os nad oes gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif(au) ffôn, neu ar unrhyw rifau llinellau gymorth neu rifau canolfannau galwadau, mae'n rhaid i chi hysbysu'r sawl sy'n ffonio yn Gymraeg (ar ffurf neges awtomataidd neu mewn ffordd arall), pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.
- 8.6 Mae'n rhaid i unrhyw systemau ffôn awtomatig sydd ar waith ddarparu gwasanaeth awtomataidd cyflawn yn Gymraeg.
- 8.7 Mae'n rhaid darparu neges bost llais dwyieithog ar unrhyw brif rif (neu rifau) ffôn, rhifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau ac mae'n rhaid rhoi gwybod i'r person sy'n galw, yn Gymraeg, y gall adael neges yn Gymraeg. Er enghraifft:

“Mae croeso i chi adael neges yn Gymraeg ar ôl y tôn”.
--

- 8.8 Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer ateb galwadau ffôn, mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr nad yw'r dangosyddion perfformiad hyn yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.
- 8.9 Pan fydd unrhyw aelod o staff yn gwneud galwadau allan ar ran 'corff y Brifysgol', mae'n rhaid gofyn i'r ymatebydd a yw'n dymuno trafod y mater dan sylw yn Gymraeg; mae'n rhaid cofnodi'r dewis hwn gyda galwadau yn y dyfodol yn ymwneud â'r mater hwnnw yn Gymraeg, oni bai ei bod yn angenrheidiol i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol hwnnw neu pan nad oes aelod o staff Cymraeg ar gael i

ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

9. GWASANAETHAU DERBYNFA

- 9.1 Mae'n rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa a roddwch ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, lle mae'n ymwneud ag un neu ragor o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.2
- 9.2 Os byddwch yn trefnu ymweliad neu apwyntiad ymlaen llaw gydag unigolyn, lle byddant yn dod i'ch derbynfa, ac mae'r ymweliad yn ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.2 o'r polisi hwn mae'n rhaid i chi ofyn iddynt a ydynt yn dymuno derbyn gwasanaeth derbyn Cymraeg a darparu hyn os gofynnir amdanynt.
- 9.3 Mae'n rhaid dangos arwydd (Cymraeg) mewn lleoliadau derbynfa sy'n datgan bod croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth y dderbynfa.
- 9.4 Os nad oes gwasanaeth derbyn Cymraeg wyneb yn wyneb ar gael, mae'n rhaid i wasanaeth derbynfa Cymraeg fod ar gael dros ffôn yn y dderbynfa.
- 9.5 Dylai aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg wisgo bathodyn sy'n cyfleu eu bod yn gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg

10. ARWYDDION A HYSBYSIADAU

- 10.1 Mae'n rhaid cyhoeddi neu arddangos pob arwydd a hysbysiad newydd yn Gymraeg, gyda'r testun Cymraeg wedi'i leoli fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf (uwchben neu i'r chwith o'r testun Saesneg cyfatebol).
- 10.2 Pan mae arwyddion a hysbysiadau presennol yn cael eu hadnewyddu, mae'n rhaid i arwydd neu hysbysiad dwyieithog gael eu rhoi yn eu lle sy'n cyfleu'r un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, a chaiff y Gymraeg ei gosod fel ei bod yn debygol o gael ei darllen yn gyntaf.
- 10.3 Mae'n rhaid i unrhyw arwyddion a hysbysiadau dros dro gynnwys testun Cymraeg a sicrhau bod y testun Cymraeg wedi'i leoli fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.
- 10.4 Mae'n rhaid i destun ar gyfer arwyddion a hysbysiadau Cymraeg fod yn gyfartal o ran ffont, maint, pwysau a fformat i'riaith Saesneg.
- 10.5 Mae'n rhaid i'r Gymraeg ar bob arwydd a hysbysiad fod yn gywir o ran ystyr a mynegiant.
- 10.6 Mae'n rhaid i ardaloedd derbynfa arddangos arwydd/hysbysiad dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) sy'n nodi bod croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa honno.

11. CYHOEDDI DOGFENNAU

11.1 Pan gynhyrchir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o ddogfensy'n ymwneud ag unrhyw un neu fwy o'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.2 o'r polisi hwn, mae'n rhaid i chi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (2.3-2.4), ac mae'n rhaid i'r fersiwn Saesneg ddatgan bod fersiwn Gymraeg ar gael. Er enghraifft:

Mae'r wybodaeth yma ar gael yn Gymraeg.	This information is available in Welsh.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg	This document is available in Welsh.

11.2 Nid oes angen cyhoeddi dogfennau a gynhyrchir ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol neu ddarpar fyfyrwyr rhyngwladol yn Gymraeg.

12. FFURFLENNI

12.1 Mae'n rhaid i unrhyw ffurflenni sydd ar gael i fyfyrwyr, neu'r i'r cyhoedd sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.2 o'r polisi hwn, fod ar gael yn Gymraeg.

12.2 Os ydych yn cynhyrchu fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahân, mae'n rhaid i chi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol a sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod fersiwn Cymraeg ar gael hefyd. Er enghraifft:

Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.	This form is also available in Welsh.
--	---------------------------------------

12.3 Os byddwch yn rhoi gwybodaeth ymlaen llaw ar ffurflen, er enghraifft cyn ei hanfon at fyfyrwr neu at aelod o'r cyhoedd i wirio'r cynnwys neu i lenwi'r gweddill, mae'n rhaid i chi sicrhau bod y wybodaeth rydych chi'n ei nodi ymlaen llaw yn Gymraeg.

13. GWEFAN ALLANOL A MEWRWYD MYFYRWYR

13.1 Mae'n rhaid i bob tudalen bresennol a newydd o wefan allanol y Brifysgol a mewnrwyd y myfyrwyr fod ar gael ac yn gwbl weithredol drwy gyfrwng y Gymraeg.

- **Gwefan allanol:** At ddibenion y polisi hwn, dylai'r 'Wefan Allanol' gael ei diffinio fel tudalennau HTML a ffeiliau cysylltiedig i'w lawrlwytho (e.e. delweddau, ffeiliau PDF) sy'n cael eu creu ar gyfer cynulleidfa gyhoeddus a heb unrhyw gyfyngiad o ran mynediad. Mae'r diffiniad hwn yn eithrio "cynnwys a gynhyrchir gan y defnyddiwr" (gweler 8.2).
- **Mewnrwyd y Myfyrwyr:** At ddibenion y polisi hwn, dylai 'Mewnrwyd y Myfyrwyr' gael ei diffinio fel tudalennau HTML a ffeiliau cysylltiedig i'w lawrlwytho (e.e. delweddau, ffeiliau PDF) nad ydynt ar gael yn

gyhoeddus ond sydd wedi'u cyhoeddi gan y Brifysgol ar gyfer ein **holl** fyfyrwyr. Mae'r diffiniad hwn yn eithrio "cynnwys a gynhyrchir gan y defnyddiwr".

13.2 Mae adran 13 ond yn berthnasol i gynnwys a rhyngwynebau a grëir gan Brifysgol Caerdydd, sy'n dod o fewn cwmpas y gweithgareddau a restrir ym mharagraff 2.2, ac nid yw'n berthnasol i'r canlynol:

- Unrhyw destun nad yw'r Brifysgol wedi'i gynhyrchu neu nad yw ar gael yn Gymraeg (e.e., wedi'i fewnforio o ffynhonnell allanol a'i fewnosod ar ein tudalennau gwe gan gyfeirio at y ffaith ei bod yn ffynhonnell allanol)
- Dogfennau y darperir dolen iddynt i wefan allanol
- Deunydd hysbysebu ar wefan sydd heb ei chreu gan Brifysgol Caerdydd
- Clipiau fideo a sain ar wefan nad yw'n cael ei chreu gan Brifysgol Caerdydd
- Cynnwys sydd heb ei gyhoeddi gan y Brifysgol ar dudalen ryngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefan (e.e. sylwadau neu fforwm drafod, cynnwys a gynhyrchwyd gan ddefnyddwyr)
- Cynnwys cyfryngau cymdeithasol (Gweler Adran 17)
- Unrhyw gynnwys sydd ar gael mewn iaith heblaw Saesneg yn unig
- Unrhyw gynnwys neu ddeunydd a gyhoeddir mewn cyfnodolion neu lyfrau (megis ymchwil a chyhoeddi deunydd academaidd)
- Dogfennau a gynhyrchir ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol neu ddarpar fyfyrwyr rhyngwladol a thestun ar dudalen we ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol neu ddarpar fyfyrwyr rhyngwladol.

13.3 Ar unrhyw dudalen Saesneg sydd â thudalen Gymraeg gyfatebol, rhaid datgan bod fersiwn Gymraeg ar gael a rhoi dolen ar ei chyfer.

13.4 Mae'n rhaid i'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar wefannau allanol perthnasol a thudalennau mewnrwyd myfyrwyr fod ar gael yn Gymraeg.

13.5 Bydd yr holl dudalennau Cymraeg a Saesneg ar y we fod yn gyfartal o ran dyluniad, ansawdd a chywirdeb, ac mae'n rhaid iddynt gael eu diweddarau ar yr un pryd.

14. SAFLEOEDD DYSGU RHITHWIR A PHYRTH DYSGU

14.1 At ddibenion y polisi hwn, mae 'Safleoedd Dysgu Rhithwir a Phyrth Dysgu' yn cael eu diffinio fel gwasanaethau y ceir mynediad atynt drwy borwr gwe ac sy'n ceisio hwyluso dysgu i fyfyrwyr a'r cyhoedd. Prif safle dysgu rhithwir y brifysgol yw Dysgu Canolog.

14.2 Mae deunyddiau cwrs a darparu cyrsiau gradd drwy blatfformau ar-lein wedi'u heithrio o Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys testunau ac adnoddau academaidd, dosbarthiadau rhithwir a fforymau trafodaethau academaidd, recordiadau o ddigwyddiadau addysgu, deunyddiau asesu ffurfiannol, yn ogystal ag adborth asesu crynodol generig, cyn-bapurau ac atebion enghreifftiol.

14.3 Mae'n rhaid i holl destun ac ymarferoldeb eraill y safleoedd dysgu rhithwir, a grëwyd neu a gomisiynwyd gan y Brifysgol, fod ar gael yn Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys:

- Cyhoeddiadau, gohebiaeth, ac adnoddau ar gyfer myfyrwyr a grëwyd neu a gomisiynwyd gan y Brifysgol sy'n ymwneud â'r gwasanaethau a restrir yn Adran 2.2 o'r polisi hwn.
- Mae'n rhaid i wybodaeth am asesu crynodol ar lefel fodiwlaid neu is-fodiwlaid fod ar gael yn Gymraeg. Pan fydd asesiadau crynodol yn cael eu cynnal ar-lein, os bydd angen i fyfyrwr roi testun rhydd yna bydd yr hawl i gyflwyno'r asesiad hwnnw yn Gymraeg yn cael ei barchu. Bydd y broses, mewn perthynas â gofyn am yr asesiad, ei osod a'i farcio yn dilyn yr un egwyddorion fel y'i cymhwysir i asesiadau crynodol (gweler adran 23).
- Ceir eithriadau ar gyfer clipiau fideo a sain (gweler adran 18 a 19) ac ar gyfer dogfennau trydydd parti sydd wedi'u hymgorffori mewn tudalen we neu y darperir dolen iddynt (gweler adran 13.2).

14.4 Nid oes rhaid i wybodaeth arall mewn perthynas â strwythur a chynnwys rhaglenni astudio fod ar gael yn Gymraeg gan nad yw'n cael ei gynnwys yn y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau.

14.5 Nid oes angen sicrhau bod cynnwys mewn fforymau trafod, cyfnodolion a blogiau myfyrwyr ar gael yn Gymraeg.

14.6 Mae'n rhaid i ddewislenni a rhyngwynebau a gynhyrchir gan system fod ar gael yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae dewislenni cwrs a gynhyrchir gan staff unigol yn ddeunyddiau cwrs ac nid yw'n ofynnol iddynt fod ar gael yn Gymraeg.

14.7 Nid oes rhaid i ryngwynebau na chynnwys mewn adnoddau trydydd parti fod ar gael yn Gymraeg, oni bai y cafwyd eu creu neu eu comisiynu gan y Brifysgol, neu bod fersiwn Gymraeg yn bodoli eisoes.

14.8 Ar unrhyw dudalen Saesneg sydd â thudalen Gymraeg gyfatebol, mae'n rhaid datgan bod fersiwn Gymraeg ar gael a rhoi dolen ar ei chyfer.

14.9 Bydd pob tudalen we Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran dylunio, ansawdd a chywirdeb ac mae'n rhaid eu diweddarau ar yr un pryd.

15. RHAGLENNI MEDDALWEDD AC AR Y WE

15.1 At ddibenion y polisi hwn, mae diffiniadau o'r gwasanaethau perthnasol a ganlyn. fel

- **Meddalwedd (gan gynnwys cymwysiadau gwe):** sef meddalwedd bwrdd gwaith sydd wedi'i gosod ar gyfrifiadur, yn ogystal â rhaglenni menter sy'n gwneud mwy na dangos cynnwys sydd wedi'i greu gan unigolyn arall yn unig.
- **Ap Ffôn Symudol:** apiau a gyhoeddir gan y Brifysgol, gan gynnwys y rhai rydym yn eu caffael er mwyn darparu gwasanaeth, i'w defnyddio ar ffonau symudol a/neu ar ddyfeisiau llechen drwy "Siopau Apiau", megis Apple App Store neu Google Play
- **Gwefannau:** Tudalennau HTML a ffeiliau cysylltiedig y gellir eu lawrlwytho (e.e. delweddau, PDFs) sy'n cael eu creu ar gyfer cynulleidfa gyhoeddus a lle nad yw mynediad wedi'i gyfyngu - cyfeiriwch at adran 13.

15.2 Dim ond i'r graddau bod y gweithgaredd a gyflawnwyd, neu'r gwasanaeth a ddarperir gan neu drwy'r ap, meddalwedd neu'r cymhwysiad gwe yn ymwneud ag un neu fwy o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt yn adran 2.2 o'r polisi hwn, mae adran 15 o'r polisi yn berthnasol yn unig.

15.3 Pan fo ap symudol neu feddalwedd/cymhwysiad gwe yn ymwneud ag un neu fwy o wasanaethau y cyfeirir atynt yn adran 2.2 o'r polisi hwn mae'n rhaid iddynt weithredu'n llawn yn Gymraeg a;

- chael yr opsiwn o ryngwyneb Cymraeg
- gallu cyflwyno unrhyw gynnwys a gynhyrchir gan y Brifysgol, a chyhoeddi unrhyw ohebiaeth gan y Brifysgol, yn Gymraeg, heb drin y fersiynau'n llai ffafriol.

15.4 Mae'n rhaid i argaeledd rhyngwyneb meddalwedd Cymraeg fod yn ffactor sy'n penderfynu wrth ddewis meddalwedd ac ni ellir ei bwysu yn erbyn gofynion busnes eraill.

15.5 Anogir staff i gysylltu â'r Tîm Pensaernïaeth TG (it-architecture@caerdydd.ac.uk) er mwyn i asesiad llawn gael ei gwblhau.

15.6 Nid oes angen i feddalwedd/rhaglenni'r we nad ydynt wedi'u rhestru yn 2.2 allu cynnig unrhyw opsiynau Cymraeg (oni bai eu bod yn darparu gwasanaethau i staff – gweler [Polisi Iaith Gymraeg ar gyfer Safonau Gweithredu](#) i gael manylion o'r hyn sy'n ofynnol gan wasanaethau sy'n wynebu staff). Bydd unrhyw gamau i ddatblygu rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer rhaglenni nad ydynt wedi'u rhestru yn cael llai o flaenoriaeth fel arfer na'r feddalwedd neu'r rhaglenni sydd wedi'u rhestru.

15.7 Mae'n rhaid i'r Brifysgol ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg yn Gymraeg ar fewnwyd y myfyrwyr, safleoedd dysgu rhithwir a safleoedd porth dysgu.

16. CYHOEDDIADAU, CYHOEDDUSRWYDD A HYSBYSEBU

- 16.1 At ddibenion cynhyrchu **cyhoeddiadau, cyhoeddusrwydd, a deunyddiau hysbysebu**² ar ran **corff y Brifysgol**³ ac wedi'u hanelu at unrhyw fyfyrwr (au) neu aelod (au) o'r cyhoedd sy'n byw yng Nghymru, pan fo diben neu gynnwys y cyhoeddiad hwnnw'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau a amlinellir ym mharagraff 2.2 o'r polisi hwn, bydd y canlynol yn berthnasol.
- 16.2 Mae'n rhaid i unrhyw ddeunydd sy'n cael ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, ac mae'n rhaid i chi beidio â thrin fersiwn Gymraeg y deunydd yn llai ffafriol na'r Saesneg (gweler 2.3-2.4).
- 16.3 Mae'n rhaid cynhyrchu cyhoeddusrwydd a hysbysebu yn Gymraeg. Os ydych yn cynhyrchu'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae'n rhaid i chi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (gweler 2.3-2.4).
- 16.4 Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, rhifau llinell gymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, mae'n rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (gweler 2.3 a 2.4), ac mae'n rhaid i chi ddatgan (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. Er enghraifft,

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg.	You are welcome to communicate with us in Welsh.
--	--

- 16.5 Ym mhob cyhoeddiad a hysbyseb sy'n annog unigolion i gysylltu â'r Brifysgol, mae'n rhaid cynnwys un o'r datganiadau canlynol:

Mae'r brifysgol yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi	The university welcomes correspondence in Welsh or English. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.
Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg.	You are welcome to communicate with us in Welsh.

17. CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

²Mae '**cyhoeddiadau, cyhoeddusrwydd a hysbysebu**' yn cynnwys unrhyw ddeunyddiau sy'n ymwneud â hyrwyddo, rhoi cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu farchnata gwasanaethau'r Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill: fersiynau copi caled ar gyfer arddangos neu ddosbarthu, neu fersiynau electronig o'r deunydd hwn a rennir ar wefannau (gweler Adran 8).

³ Mae '**corff y Brifysgol**' yn cyfeirio at y Brifysgol yn ei chyfanrwydd **neu** i dimau **neu** i adrannau **neu** i Golegau **neu** i Ysgolion sy'n cynrychioli'r Brifysgol, i neu ddarparwyr trydydd parti a gomisiynwyd i ohebu â myfyrwyr ar ein rhan.

17.1 Diffinnir y term 'cyfryngau cymdeithasol' fel gwefan neu raglen sy'n galluogi defnyddwyr i greu a rhannu cynnwys neu i gymryd rhan mewn rhwydweithio cymdeithasol. Ymhlith yr enghreifftiau o hyn mae'r canlynol:

- Facebook
- X - (a elwir gynt yn Twitter)
- LinkedIn
- Instagram
- YouTube

17.2 Mae holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol swyddogol Prifysgol Caerdydd yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys:

- cyfrifon corfforaethol
- cyfrifon ymgyrchoedd
- cyfrifon adrannol (ysgolion academaidd a gwasanaethau proffesiynol), a
- chyfrifon staff unigol os ydynt yn gweithredu ar ran neu yn enw'r Brifysgol.

17.3 Mae'n rhaid cyhoeddi'r cynnwys a gyhoeddir gan y Brifysgol, sy'n dod o fewn cwmpas y gweithgareddau a restrir ym mharagraff 2.2, yn Gymraeg.

17.4 Gall cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, nad ydynt yn gysylltiedig, yn unig, â gwaith yr unigolyn, fod yn newis iaith yr unigolyn hwnnw.

17.5 Mae'r safonau'n berthnasol i gynnwys dros dro sy'n dod i ben ar ôl cyfnod penodol o amser. Er enghraifft:

- Stori ar Instagram
- Stori ar Facebook

17.6 Mae'n rhaid i'r wybodaeth ganlynol sy'n nodwedd barhaol o'r cyfrif fod ar gael yn Gymraeg:

- testun bywgraffyddol ('bio') ar X (Twitter gynt) /Instagram
- testun am y cyfrif yn adran 'Gwybodaeth' ar Facebook

17.7 Os gweithredir cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân mae'n rhaid gwneud yn glir ar y cyfrif Saesneg fod cyfrif cyfatebol yn bodoli yn Gymraeg (e.e., drwy ddarparu dolen uniongyrchol i'r cyfrif Cymraeg o'r cyfrif Saesneg cyfatebol). Er enghraifft,

“Cymraeg @prifysgolCdydd”

17.8 Os ydych yn cynnwys dolen i adnodd arall e.e., dogfen neu wefan, mewn neges ar un o'r cyfryngau cymdeithasol, mae'n rhaid i chi rhoi dolen i'r fersiwn Gymraeg o'r cyfrif Cymraeg/cynnwys Cymraeg.

17.9 Os nad oes fersiwn Cymraeg ar gael a chafodd yr adnodd ei gynhyrchu gan y Brifysgol, mae'n rhaid i chi wirio a oes rhaid i'r adnodd fod ar gael yn Gymraeg

yn ôl y Safonau.

- 17.10 Os byddwch chi'n rhannu postïadau gan bobl eraill, e.e., ail-drydar ar X (Twitter gynt)/ neu rannu ar Facebook, ac mae'r cynnwys gwreiddiol yn y Saesneg, nid oes angen ei gyfieithu i'r Gymraeg.
- 17.11 Os ystyrir bod postiad Saesneg yn bwysig neu o ddiddordeb i ddilynwyr y cyfrif Cymraeg, yna dylid crynhoi'r postiad gwreiddiol yn Gymraeg yn y neges drydar (ar X, Twitter gynt) neu'r postiad sydd wedi'i rannu (Facebook/Instagram), a chynnwys dolen i'r postiad Saesneg gwreiddiol.
- 17.12 Os ydych am rannu cynnwys a gyflwynir trwy sianeli eraill, e.e., mewn ystafelloedd sgwrsio, mewn adran adborth, neu mewn fforwm drafod, nid oes angen cyfieithu'r cynnwys.
- 17.13 Mae angen sicrhau bod cyfraniadau Cymraeg a Saesneg yn cael eu caniatáu, ac mae'n rhaid i bob postiad sy'n ymateb fod yn yr un iaith â'r postiad gwreiddiol (Cymraeg neu Saesneg).
- 17.14 Os defnyddir hashnodau ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg, yna dylai'r ddau hashnod gael eu defnyddio ar sianeli cyfryngau cymdeithasol yn y Saesneg a'r Gymraeg, er mwyn sicrhau croes-hyrwyddo a thrafodaeth unedig.
- 17.15 Bydd ffrydio byw ar sianeli cyfryngau cymdeithasol yn yr iaith a siaredir.

18. FIDEOS

- 18.1 Mae'n rhaid cyhoeddi cynnwys fideo a gyhoeddir gan y Brifysgol, sy'n dod o fewn cwmpas y gweithgareddau a restrir ym mharagraff 2.2, yn Gymraeg.
- 18.2 Mae'n rhaid creu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o'r cynnwys neu dylech ystyried creu fersiwn dwyieithog.
- 18.3 Mae'n rhaid cyhoeddi'r holl destun ar y sgrin, graffeg, lleisiau a chapsiynau yn Gymraeg.
- 18.4 Os nad yw'r bobl sy'n cael eu ffilmio yn ddwyieithog, yna mae'n rhaid chwilio am rywun arall a allai gyfrannu yn Gymraeg.
- 18.5 Os na allwch ddod o hyd i rywun sy'n siarad Cymraeg o hyd, gallwch ystyried darparu is-deitlau, ond mae'n rhaid dangos tystiolaeth nad ydych wedi llwyddo dod o hyd i rywun i gyfrannu yn Gymraeg. Gall tystiolaeth gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i,
- negeseuon e-bost at grwpiau myfyrwyr sy'n gofyn am eu cynnwys mewn prosiect,
 - negeseuon mewn safle Microsoft Teams gyda staff sy'n siarad Cymraeg,

- negeseuon at Undeb y Myfyrwyr i ofyn am eu cefnogaeth i ffynhonnell siaradwyr Cymraeg,
- erthyglau mewn newyddion myfyrwyr neu blas sy'n gofyn am gyfranwyr,
- swyddi cyfryngau cymdeithasol yn gofyn am gyfraniadau

18.6 Gellir dangos uwch staff, arbenigwyr a myfyrwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg ac sydd â gwybodaeth neu dystiolaeth o bwysigrwydd arbennig ac unigryw yn siarad yn Saesneg mewn fideo Cymraeg, ond mae'n rhaid darparu is-deitlau yn Gymraeg. Fodd bynnag, y cam cyntaf yw ystyried dod o hyd i bobl i gyfrannu yn Gymraeg.

18.7 Yn yr un modd, gall cyfraniadau gan bersonau sy'n trafod eu profiad byw gael eu hisdeitlo ond mae'n rhaid i ystyriaeth i gyfranwyr Cymraeg amgen fod yn gam cyntaf.

18.8 Pan fo isdeitlau Cymraeg yn cael eu defnyddio ar gyfraniad Saesneg yn unig, sy'n bodloni'r meini prawf perthnasol (gweler 18.5-18.6) mae'n rhaid eu hymgorffori yn y cynnwys fideo cyn eu cyhoeddi.

18.9 Peidiwch â defnyddio cerddoriaeth sydd â geiriau. Os ydych yn dymuno defnyddio cân sydd â geiriau, ystyriwch ddefnyddio cân Gymraeg yn nwy fersiwn y fideo. Fel arall, dylid defnyddio cân Saesneg yn y fersiwn Saesneg a cân Gymraeg yn y fersiwn Gymraeg. Dylech hefyd ystyried unrhyw faterion hawlfraint cyn defnyddio cerddoriaeth.

18.10 Mae'n rhaid postio fideos Cymraeg ar fersiwn Gymraeg unrhyw gyfrif cyfryngau cymdeithasol, neu sianeli gwefan. Gellir postio fideos dwyieithog ar ffrydiau cyfryngau cymdeithasol iaith ddeuol a rhai Cymraeg a Saesneg ar wahân, ac ar unrhyw sianel gwefan. Ni chaniateir fideos yn y Saesneg ar sianeli iaith Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol neu wefannau.

18.11 Lle defnyddir is-deitlau neu gapsynau yn ystod y fideo cyfan, bydd y rhain yn iaith y fideo. Bydd is-deitlau ar gyfer fideos dwyieithog yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd neu gellir postio'r un fideo ddwywaith, gydag isdeitlau Cymraeg a Saesneg yn y drefn honno.

18.12 Mae'n rhaid i fideos dwyieithog fod yn 50:50 Cymraeg: Saesneg. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r cydbwysedd rhwng y ddwy iaith wrth baratoi cyfranogwyr a chreu byrddau stori.

18.13 Gall fod yn fanteisiol cynnwys rhywfaint o Gymraeg mewn fideo Saesneg; mae hwn yn gyfle da i hyrwyddo'r Gymraeg. Dylai'r fideo Saesneg gynnwys isdeitlau ar gyfer y cyfraniadau Cymraeg.

Fideos i'w cylchredeg gyda chynulleidfa ryngwladol yn unig.

18.14 Nid yw Hysbysiad Cydymffurfiaeth y Brifysgol yn sôn yn benodol am gynulleidfa ryngwladol wrth ddarparu gwasanaethau. Mae Mesur y Gymraeg yn darparu bod y safonau'n berthnasol mewn perthynas â Chymru.

Nid yw hynny o reidrwydd yn gyfyngedig i wasanaethau a ddarperir yn ddaearyddol yng Nghymru gan fod gan “mewn perthynas â Chymru” ystyr ehangach a all gynnwys gwasanaethau a ddarperir y tu allan i Gymru, cyhyd â bod ganddynt gysylltiad â Chymru.

Os oes gan y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu (y mae cynnwys y fideo yn cyfeirio ato) y cysylltiad angenrheidiol â Chymru, yna gallai'r safonau fod yn berthnasol i'r gwasanaeth hwn. O ganlyniad, bydd p'un a yw'r safonau sy'n ymwneud â fideos yn berthnasol yn dibynnu ar gyd-destun y gwasanaethau sy'n cael eu darparu a'r gweithgaredd a gynhelir.

18.15 Mae safbwynt y Brifysgol fel a ganlyn —

Os bydd y fideo yn cael ei ddosbarthu i gynulleidfa ryngwladol yn unig yna gallwch ei gyhoeddi yn Saesneg yn unig.

18.16 Dylai fideos ar gyfer cynulleidfa ryngwladol yn unig gynnwys 'Fideo ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol' yn y teitl neu yn y disgrifiad.

Fideos sy'n ymwneud â gweithgareddau ymchwil.

18.17 Mae fideos sy'n ymwneud â gweithgareddau ymchwil cyffredinol yn debygol, ond nid bob amser, o ddod o fewn cwrpas y gweithgareddau a restrir ym mharagraff 2.2 — megis darparu gwybodaeth i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr am gorff y Brifysgol.

18.18 Bydd yn ofynnol i fideos sy'n cael eu creu i ffurfio rhan o gyhoeddusrwydd a hysbysebu'r brifysgol, fel fideo sy'n esbonio elfen o waith y corff, ddilyn y canllawiau yn y polisi hwn.

18.19 Mae rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn nodi

“Nid yw'n ofynnol i gorff gydymffurfio â'r safonau hyn mewn perthynas â deunydd a gyhoeddir mewn cyfnodolion neu lyfrau.”

Nid oes angen i fideos a grëir sy'n trafod deunydd ymchwil ac yn cyfeirio'n uniongyrchol gydymffurfio â'r canllawiau yn y polisi hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid bod cysylltiad clir rhwng y gwasanaeth neu'r gweithgaredd sy'n cael ei ddarparu (y fideo) a chyhoeddi'r deunydd mewn cyfnodolyn neu lyfr.

18.20 Er enghraifft,

- mae un fideo wedi'i anelu at ddarparu trosolwg o weithgareddau ymchwil yn yr Ysgol Feddygaeth i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr. Mae'n cynnwys rhai personau sy'n siarad â'r camera yn trafod y labordai a'r cyfleusterau niferus sydd ar gael i fyfyrwyr, a darpar fyfyrwyr, a'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael ar ôl astudio i ymgysylltu ag ymchwil.

Mae'r math hwn o fideo yn darparu gwybodaeth i fyfyrwyr ac i ddarpar fyfyrwyr i esbonio elfen o waith y corff a byddai'n ofynnol iddo gydymffurfio â'r canllawiau hyn.

- mae fideo arall yn cael ei greu i gyflwyno deunyddiau sydd wedi cael eu cyhoeddi mewn cyfnodolyn neu lyfr. Mae'r fideo hwn yn cynnwys yr ymchwilydd arweiniol yn cyflwyno eu canfyddiadau o'r ymchwil a gyhoeddwyd mewn cyfnodolyn neu lyfr ac mae'n trafod cymhwysiad y gwaith ymchwil yn y byd go iawn. Gall gyfeirio unigolion at dudalennau arian grant ar wefan y Brifysgol i annog ymchwil pellach.

Mae'r math hwn o fideo yn ymwneud â deunydd a gyhoeddir mewn cyfnodolion neu lyfrau ac nid yw'n ofynnol iddo gael ei gyhoeddi yn Gymraeg. I'r gwrthwyneb, ni fyddai'r wybodaeth a geir ar y wefan yn ymwneud â grantiau ymchwil yn cael ei heithrio yn yr un modd gan nad oes cysylltiad clir rhwng y deunydd ymchwil sy'n cael ei drafod a gwybodaeth gyffredinol a ddarperir i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr am gyfleoedd ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd.

19. PODLEDIADAU

- 19.1 Mae'n rhaid cyhoeddi cynnwys podlediad a gyhoeddir gan y Brifysgol, sy'n dod o fewn cwmpas y gweithgareddau a restrir ym mharagraff 2.2, yn Gymraeg.
- 19.2 Cynghorir fersiynau ar wahân o'r cynnwys sain, fel arall mae'n rhaid iddynt fod yn 50:50 Cymraeg: Saesneg. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r cydbwysedd rhwng y ddwy iaith wrth baratoi cyfranogwyr a chreu byrddau stori.
- 19.3 Ni chaniateir podlediadau yn y Saesneg ar sianeli iaith Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol neu ar wefannau.
- 19.4 Ar gyfer cynnwys astudiaeth achos, mae'n rhaid i'r cam cyntaf bob amser fod i chwilio am gyfranogwyr dwyieithog, fel y gellir cynhyrchu podlediadau Cymraeg a Saesneg. Fel arall, mae'n rhaid creu dwy astudiaeth achos ar wahân o'r un safon yn y ddwy iaith.
- 19.5 Gellir dangos uwch staff, ac arbenigwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg ac sydd â gwybodaeth neu dystiolaeth o bwysigrwydd arbennig ac unigryw yn siarad yn Saesneg mewn fideo Cymraeg, ond mae'n rhaid darparu is-deitlau yn Gymraeg. Fodd bynnag, y cam cyntaf yw ystyried dod o hyd i bobl i gyfrannu

yn Gymraeg.

20. CYFARFODYDD NAD YDYNT YN AGORED I'R CYHOEDD

Cyfarfodydd rhwng y Brifysgol ac un person arall a wahoddir

20.1 Pan mae aelod o staff yn trefnu unrhyw gyfarfod ar ran y Brifysgol gydag unrhyw fyfyrwr neu berson o'r tu allan i'r Brifysgol ac mae diben neu gynnwys y cyfarfod o dan sylw yn ymwneud ag unrhyw un neu fwy o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt yn adran 2.2 o'r polisi hwn, mae'n rhaid i chi ofyn i'r sawl a wahoddir a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Os nad yw'n bosibl cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, caiff gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ei gynnig ar gyfer cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg i alluogi'r rheini yn y cyfarfod gyfrannu'n Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Cyfarfodydd rhwng y Brifysgol a mwy nag un person a wahoddir

20.2 Pan fydd aelod o staff yn trefnu unrhyw gyfarfod ar ran y Brifysgol gydag unrhyw fyfyrwr/fyfyrywyr neu berson(au) o'r tu allan i'r Brifysgol ac mae diben neu gynnwys y cyfarfod o dan sylw yn ymwneud ag unrhyw un neu mwy o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt yn adran 2.2 o'r polisi hwn, mae'n rhaid i chi ofyn i'r sawl a wahoddir a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Os nad yw'n bosibl cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, caiff gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ei gynnig ar gyfer cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg i alluogi'r rheini yn y cyfarfod gyfrannu'n Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny, pan fydd o leiaf 10 o'r bobl a wahoddwyd wedi rhoi gwybod i ni eu bod yn dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg yn y cyfarfod.

Cyfarfodydd gyda mwy nag un person gwahoddedig yn ymwneud â chwynion, achos disgyblu neu gymorth i fyfyrwyr

20.3 Pan fod aelod o staff yn trefnu unrhyw gyfarfod ar ran y Brifysgol gydag unrhyw fyfyrwr/fyfyrywyr neu berson/pobl sy'n allanol i'r Brifysgol, lle mae diben neu gynnwys y cyfarfod hwnnw'n ymwneud ag unrhyw un neu fwy o'r materion isod:

- cwyn ynghylch neu gan fyfyrwr neu aelod o'r cyhoedd
- gweithdrefnau disgyblu mewn perthynas â myfyrwr
- Darparu cefnogaeth i (er enghraifft, ond heb fod yn gyfyngedig i, gwrsela neu gefnogaeth mewn perthynas â materion iechyd meddwl)

mae'n angenrheidiol gofyn i'r person/bobl a wahoddir a ydynt am ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Os nad yw'n bosibl cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, caiff gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ei gynnig ar gyfer cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg **yn ogystal ag o'r Saesneg i'r Gymraeg.**

21. CYFARFODYDD CYHOEDDUS

21.1 Pan fydd y Brifysgol yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, neu ar gyfer

myfyrwyr sydd o fewn carfan benodol, pan fo diben neu gynnwys y cyfarfod hwnnw yn ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt yn 2.2 o'r polisi hwn, mae'n rhaid inni

- ddatgan ar unrhyw ddeunyddiau sy'n hysbysebu'r cyfarfod bod croeso i unrhyw un sy'n mynd iddo ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod
- Sicrhau fersiwn Gymraeg o'r deunyddiau
- Sicrhau y gofynnir i'r rhai a wahoddir i siarad yn y cyfarfod a ydynt am ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod (a'u hysbysu y darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os oes angen)
- Sicrhau bod deunyddiau ysgrifenedig a ddangosir yn y cyfarfod yn cael eu harddangos yn Gymraeg ac nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

21.2 Os nad yw cynnal y cyfarfod yn Gymraeg yn bosibl, mae'n rhaid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn caniatáu i'r rhai sy'n bresennol gyfrannu yn Gymraeg ac mae'n rhaid i ni hysbysu'r rhai sydd yn siarad Cymraeg bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

22. TIWTORIAID PERSONOL

22.1 Gofynnir i'r holl fyfyrwyr ar ddechrau eu hastudiaethau a ydynt yn dymuno cael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg. Mae'n rhaid i'r Brifysgol neilltuo un os yw myfyriwr wedi hysbysu'r Brifysgol ei fod yn dymuno cael un.

22.2 Os nad oes unrhyw aelod o staff addysgu'r Ysgol yn medru'r Gymraeg, dylid gofyn i aelod priodol o'r staff o Ysgol arall fod yn diwtor i'r myfyriwr; gellir neilltuo tiwtor academaidd yn yr Ysgol nad yw'n medru'r Gymraeg yn ogystal â'r tiwtor personol.

23. ASESIAU AC ARHOLIADAU YSGRIFENEDIG

23.1 Bydd gan y Brifysgol broses ar waith i wneud yn siŵr bod pob myfyriwr yn cael gwybod am ei hawl i gwblhau asesiadau ysgrifenedig (gan gynnwys traethodau ymchwil a thraethodau hir) yn Gymraeg.

Chwiliwch *'Proses ar gyfer asesiad cyfrwng Cymraeg'* ar y fewnwyd i gael rhagor o wybodaeth.

23.2 Os bydd myfyriwr yn dymuno cyflwyno asesiad ysgrifenedig yn Gymraeg, bydd y Brifysgol yn ceisio gwneud yn siŵr bod yr holl waith cwrs, papurau arholiad a sgriptiau'n cael eu marcio yn Gymraeg. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd y Brifysgol yn gwneud yn siŵr bod papurau arholiad a sgriptiau'n cael eu cyfieithu i'r Saesneg gan gyfieithydd cymwysedig sy'n gallu ymdrin â'r maes astudiaeth perthnasol yn hyderus.

23.3 Gall myfyrwyr gyflwyno asesiadau ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg heblaw lle nad yw'n caniatáu i'r canlyniadau dysgu gael eu dangos, megis pan asesir hyfedredd myfyriwr mewn iaith heblaw am y Gymraeg.

23.4 Dylai tiwtoriaid personol drafod gyda'u myfyrwyr os ydynt am gyflwyno eu hasesiadau/gwaith ysgrifenedig yn yr iaith Gymraeg ac esbonio'r broses ar gyfer hysbysu'r ysgol am eu bwriad.

23.5 Ni fydd penderfynu cwblhau unrhyw asesiad ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg yn effeithio ar ganlyniad yr asesiad nag ar yr amser a gymerir i ddyfarnu gradd mewn unrhyw ffordd.

23.6 Gall cyflwyniadau i ystyried achosion o amgylchiadau esgusodol gael eu cwblhau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

24. DIGWYDDIADAU CYHOEDDUS

24.1 Wrth drefnu unrhyw ddigwyddiad cyhoeddus (gan gynnwys lle mae'r Brifysgol yn ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus gwasteiwr arall), pan fo'r digwyddiad yn ymwneud ag unrhyw un o'r gwasanaeth y cyfeirir ato ym mharagraff 2.2 o'r polisi hwn, mae'n rhaid i chi sicrhau bod:

- Rhaid bod gwasanaethau a gynigir cyn, ac yn ystod, y digwyddiad i'r rhai sy'n mynd iddo ar gael yn Gymraeg (a Saesneg) o ran y broses gofrestru, derbynfa, cyhoeddiadau sain, arwyddion.
- Y deunyddiau sy'n hyrwyddo'r digwyddiad ar gael yn ddwyieithog (neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân)

24.2 Nid yw'r rhan hon o'r polisi yn berthnasol ar gyfer y gweithgareddau canlynol:

- perfformiadau cerddorol.
- cynyrchiadau dramatig neu artistig.
- seminarau neu gyflwyniadau llafar sy'n ymwneud â'r perfformiad neu'r cynhyrchiad.
- unrhyw recordiad o'r perfformiad, cynhyrchiad, seminar neu gyflwyniad.
- cyhoeddiadau yn ystod argyfwng neu ymarferion argyfwng.

25. DARLITHOEDD CYHOEDDUS

25.1 Wrth drefnu unrhyw ddarlith gyhoeddus am bwnc penodol neu a fydd yn denu cynulleidfa fydd yn disgwyl gallu cyfrannu yn Gymraeg yn ôl pob tebyg, mae'n rhaid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer unrhyw sesiwn holi ac ateb, ac mae'n rhaid rhoi gwybod ar lafar i'r rhai sy'n bresennol bod croeso iddynt gyfrannu yn Gymraeg yn ystod y sesiwn.

26. CYFLEOEDD DYSGU

26.1 Mae'n rhaid i unrhyw gyfle dysgu a gynigir gan y Brifysgol sy'n agored i'r cyhoedd gael ei ddarparu yn Gymraeg.

26.2 Diffinnir cyfle dysgu fel unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy, sesiwn

ragflas, neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei darparu er mwyn addysgu neu wella sgiliau'r cyhoedd; ond nid yw'n cynnwys unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy, sesiwn ragflas neu ddarpariaeth debyg a ddarperir yn rhan o gwrs; neu seminarau neu gyflwyniadau sy'n ymwneud â pherfformiad neu gynhyrchiad.

27. PEIRIANNAU HUNANWASANAETH

27.1 Mae'n rhaid i beiriannau hunan-wasanaeth weithredu'n llawn yn Gymraeg, gan beidio â thrin yr r iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw.

28. CONTRACTAU

28.1 Mae'n rhaid cyhoeddi gwahoddiadau i dendro ar gyfer contract yn Gymraeg

- os yw'r contract arfaethedig yn ymwneud ag unrhyw un o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.2 o'r polisi hwn ac
- mae pwnc y gwahoddiad i dendro am gontract yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg neu
- mae'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cyhoeddi'r gwahoddiad yn Gymraeg.

28.2 Mae'r term 'gwahoddiad i dendro' yn cynnwys yr holl ddogfennau yn y pecyn sy'n gwahodd ymgeiswyr i dendro am gontract. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill:

- dolen i'r dogfennau caffael
- y dogfennau caffael eu hunain
- amserlen y broses dendro a'r wybodaeth gyswllt berthnasol, a
- gwybodaeth am y meini prawf a ddefnyddir gan y corff dyfarnu.

28.3 Mae'n rhaid i wahoddiadau i dendro ddatgan y gellir cyflwyno tendrau yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg. Mae'n rhaid cynnwys y datganiad hwn pan fo'r tendr yn cael ei gyhoeddi yn Saesneg yn unig.

28.4 Mae'n rhaid i chi beidio â thrin tendr a gyflwynwyd yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynwyd yn Saesneg.

28.5 Os ydych yn derbyn tendr yn Gymraeg ac mae angen cyfweld â'r tendrwr fel rhan o'ch asesiad, mae'n rhaid i chi -

- gynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn galluogi'r tendrwr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, ac
- os yw'r tendrwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (oni bai eich bod yn cynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).

28.6 Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr am eich penderfyniad mewn perthynas â thendr, mae'n rhaid i chi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg.

29. LLETY PRESWYL

29.1 Mae'n rhaid caniatáu i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr fynegi dewis ar gyfer llety a fydd yn cael ei gadw ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

29.2 Mae'n rhaid i'r Brifysgol hyrwyddo i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr y gallu iddynt fynegi ffafriaeth ar gyfer llety, a fydd yn cael ei gadw ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

30. GRADDIO

30.1 Pan fyddwch yn trefnu seremoni raddio neu wobrwyo mae'n rhaid i chi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â deunydd neu arwyddion a arddangosir gennych yn y lleoliadau ac mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth a ddarperir ynghylch trefn y digwyddiadau yn y seremoni.

31. ERAILL

31.1 Mae'n rhaid i chi hyrwyddo unrhyw wasanaeth Cymraeg yr ydych yn ei ddarparu a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.

31.2 Pan fyddwch yn ffurfio, yn diwygio neu yn cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol mae'n rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

31.3 Mae'n rhaid gwneud cyhoeddiadau dros systemau cyfeiriadau cyhoeddus, yn Gymraeg, ac mae'n rhaid gwneud y cyhoeddiad yn Gymraeg yn gyntaf.

32. CWYNION

32.1 Bydd y Brifysgol yn ymchwilio ac yn ymateb i gwynion a gyflwynir mewn cysylltiad â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg pan dderbynnir cwyn ymhen 12 mis wedi i'r mater godi; o ran cwynion sy'n ymwneud ag achosion a ddigwyddodd dros 12 mis yn gynharach, y Brifysgol sydd i benderfynu a gynhelir ymchwiliad iddynt ai peidio.

32.2 Dylai cwynion sy'n ymwneud â safonau'r Gymraeg gael eu cyfeirio at yr Uwch-ymgyngorydd Cydymffurfiaeth a Swyddog y Gymraeg drwy e-bost – conformandrisk@caerdydd.ac.uk

32.3 Bydd yr Uwch-ymgyngorydd Cydymffurfiaeth a Swyddog y Gymraeg yn cydnabod ac yn ymchwilio i unrhyw gŵyn a dderbynnir, achedwir cofnod yn unol â'r Safonau.

32.4 Yn dilyn yr ymchwiliad, bydd yr Uwch-ymgyngorydd Cydymffurfiaeth a

Swyddog y Gymraeg yn ymateb i'r achwynydd gan roi gwybod am y canlyniad ac am unrhyw gamau adferol sydd wedi'u rhoi ar waith os caiff y gŵyn ei chadarnhau.

32.5 Gall yr Uwch-ymgyngorydd Cydymffurfiaeth a Swyddog y Gymraeg ddirprwyo'r cyfrifoldebau hyn i aelodau staff eraill. Bydd yr Uwch-ymgyngorydd yn cynnig hyfforddiant, cymorth ac arweiniad ar sut i ddelio â chwynion.

33. MONITRO AC ADOLYGU

33.1 Bydd y Tîm Cydymffurfiaeth a Risg yn adolygu'r polisi hwn yn anffurfiol yn flynyddol, ac yn ffurfiol bob 3 blynedd.

33.2 Bwrdd Gweithredol y Brifysgol sy'n bennaf gyfrifol am gymeradwyo'r polisi hwn.

33.3 Cyhoeddir y polisi ar ein mewnwyd a'n gwefan allanol yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017.

33.4 Bydd adroddiad blynyddol ar sut y gweithredir y polisi hwn a'i effaith yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Gweithredol y Gymraeg. Gellir rhannu'r adroddiad hwn â Bwrdd Gweithredol a Phwyllgor Llywodraethu'r Brifysgol hefyd.

34. GWYBODAETH RHEOLI FERSIYNAU

Enw'r Ddogfen	Polisi Cyflenwi Gwasanaethau Safonau'r Gymraeg	
Noddwr y Polisi ym Mwrdd Gweithredol y Brifysgol	Y Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol	
Perchennog y Polisi	Uwch-ymgyngorydd Cydymffurfiaeth a Swyddog y Gymraeg	
Awdur(on) y Polisi	Thomas Tudor Jones, Uwch-ymgyngorydd Cydymffurfiaeth a Swyddog y Gymraeg Ian Johnson, Swyddog Cydymffurfio Tîm Cydymffurfiaeth a Risg, Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol	
Rhif y Fersiwn	F_04	
Canlyniad yr Effaith ar Gydraddoldeb a Dyddiad Cyflwyno'r Ffurflen	Dim effaith sylweddol wedi'i chofnodi	
Canlyniad yr Aseiad o Effaith ar Breifatrwydd (lle bo'n berthnasol)	Amherthnasol	
Dyddiad Cymeradwyo	21 Mai 2024	

Cymeradwywyd Gan	Bwrdd Gweithredol y Brifysgol
Dyddiad Gweithredu	Mehefin 2024
Dyddiad yr Adolygiad Diwethaf	11 Mawrth 2024
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf	Mai 2025
At Ddefnydd y Swyddfa – Allweddeiriau ar gyfer y nodwedd chwilio	

Cofnod o Newidiadau

Dylai'r Awdur lenwi'r tabl isod bob tro y gwneir newid i'r polisi

Fersiwn a ddiwygiwyd	Disgrifiad o'r Newid	Crëwyd y fersiwn